



Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Croeso i'r arddangosfa ar gynigiad ar gyfer Barics Cawdor yn y dyfodol

Ar hyn o bryd bydd Barics Cawdor yn cau fel uned y Fyddin yn 2028 man cynharaf. Mae'r arddangosfa hon yn manylu ar gynigiad y Weinyddiaeth Amddiffyn i barhau â hanes hir y safle o gefnogi milwyr y DU drwy leoli Galluogrwydd Radar Uwch y Gofod Pell (DARC) ym Marics Cawdor.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu cyflwyno gan Rheolaeth Ofod y DU.

Ynghylch y safle

Mae Barics Cawdor wedi'i leoli 6.3 milltir i'r dwyrain o Dyddewi, rhwng Solfach a Phenycwm, y tu allan i ffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Ar hyn o bryd mae Barics Cawdor yn gartref i Gatrawd Signal 14 (Rhyfela Electronig).

Welcome to the exhibition on the future proposal for Cawdor Barracks

Cawdor Barracks is currently due to close as an Army unit from 2028 at the earliest. This exhibition details the Ministry of Defence's proposal to continue the site's long history of supporting the UK's military by installing advanced ground-based sensors as part of the Deep Space Advanced Radar Capability (DARC) programme.

The proposal is being brought forward by UK Space Command.

About the site

Cawdor Barracks is located 6.3 miles east of St Davids, between Solva and Penycwm, outside of the Pembrokeshire Coast National Park.

Cawdor Barracks is currently home to 14 Signal Regiment (Electronic Warfare).

Tîm y Rhaglen

Mae cynrychiolwyr o dîm y rhaglen ar gael i ateb eich cwestiynau heddiw, gan gynnwys:

Programme team

Available to answer your questions today are representatives from the programme team, including:



Ministry
of Defence



Cynllunwyr/
Planners



Contractwr amgylcheddol/
Environmental contractor



Ymgysylltu â'r gymuned/
Community engagement





Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Rheolaeth Ofod y DU

Rheolaeth Ofod y DU yw'r arweinydd ym maes amddiffyn ar gyfer gweithrediadau, galluedd a gweithlu'r gofod. Mae'n garfan ar y cyd, sydd wedi'i lleoli yn RAF High Wycombe, gyda staff o'r Llynges Frenhinol, Byddin Prydain a'r Llu Awyr Brenhinol, ochr yn ochr â gweision sifil a chontractwyr. Mae Rheolaeth Ofod y DU hefyd yn cael ei chefnogi gan nifer cynyddol o staff cyfnewid o bartneriaid rhyngwladol.

Gan weithio ochr yn ochr â chynghreiriaid a phartneriaid, mae Rheolaeth Ofod y DU ar flaen y gad o ran gweithgarwch i wneud y gofod yn ddiogel ac yn gynaliadwy i bob cenhedlaeth. Cenhadaeth Rheolaeth Ofod y DU yw diogelu ac amddiffyn buddiannau'r DU a'n cynghreiriaid mewn perthynas â'r gofod.

Rheolaeth Ofod y DU sy'n gyfrifol am RAF Fylingdales, sef prif synhwyrdd gofod milwrol y DU. Mae hefyd yn arwain y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gweithrediadau Gofod, ochr yn ochr ag Asiantaeth Ofod y DU ac mewn partneriaeth â'r Swyddfa Dywydd. Rheolaeth Ofod y DU sy'n cyflawni'r dasg o ddiogelu ac amddiffyn SKYNET, clwstwr blaengar y DU o loerennau cyfathrebu milwrol – y Rheolaeth Strategol sy'n gyfrifol am y rhain ar hyn o bryd.

UK Space Command

UK Space Command is the defence lead for space operations, space workforce and space capability. It is a joint command, based at RAF High Wycombe, staffed by personnel from the Royal Navy, British Army and Royal Air Force, alongside civil servants and contractors. UK Space Command is also supported by an increasing number of exchange personnel from international partners.

Working alongside allies and partners, UK Space Command is at the forefront of activity to make space safe, secure and sustainable for all generations. UK Space Command's mission is to protect and defend UK and allied interests in, from and to space.

UK Space Command has responsibility for RAF Fylingdales, the UK's primary military space sensor. It also leads the National Space Operations Centre, alongside the UK Space Agency and in partnership with the Met Office. UK Space Command is tasked to protect and defend SKYNET, the UK's world-leading constellation of military communications satellites, which currently fall under the responsibility of UK Strategic Command.



RAF Fylingdales / RAF Fylingdales

Gwybodaeth gysylltiedig / Related information:



Y Strategaeth Ofod /
Genedlaethol National Space
Strategy



Y Strategaeth Ofod ar gyfer
Amddiffyn / Defence Space
Strategy



Bydd radar gofod pell newydd yn trawsnewid diogelwch y DU /
New deep space radar will transform UK security



Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Beth yw DARC?

Mae cynnig yn cael ei ddatblygu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) ynghylch dyfodol Barics Cawdor fel rhan o raglen Gallu Radar Uwch y Gofod Pell (DARC) – sef cytundeb strategol rhwng yr Unol Daleithiau, Awstralia, a'r Deyrnas Unedig i osod casgliad o uwch synwryddion ar y ddaear ym mhob un o'r gwledydd i edrych ar y gofod pell (tua 36,000 km).

Mae'r rhaglen newydd wedi'i llunio i ddarparu gallu 24/7 ym mhob tywydd a fyddai'n defnyddio daearyddiaeth yr Unol Daleithiau, Awstralia a'r Deyrnas Unedig i ddarparu system fonitro 360° i ganfod, tracio, nodi a nodweddu gwrthrychau'r gofod pell.

Mae disgwyl i safle'r DU fod yn weithredol erbyn diwedd y ddegawd

Pam fod angen DARC?

Mae'r gofod yn hanfodol i'r wlad ac mae'n chwarae rhan hollbwysig yn ein bywydau bob dydd. Mae gwasanaethau'r gofod, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu darparu gan loerennau, yn sail i sawl agwedd ar fywyd modern, e.e. galluogi mordwyo, monitro'r hinsawdd, rhagweld y tywydd, cefnogi ein gwasanaethau brys, cefnogi ein Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol a diogelu'r cyhoedd. Mae gwasanaethau lloerennau bydeang yn sail i o leiaf 18% o GDP y DU (£370 biliwn). Mae deall beth sydd yn y gofod yn hanfodol i fuddiannau'r DU, yn enwedig wrth i'r gofod fynd yn fwy prysur gyda lloerennau a malurion, yn ogystal â pheryglon presennol fel meteorau ac eithafion tywydd yn y gofod.

Byddai'r cynllun i ailddatblygu Barics Cawdor ar gyfer rhaglen DARC yn helpu i ddiogelu ein ffyniant, ein diogelwch a'n ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol. Drwy wella ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y gofod, gallwn barhau i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb.

What is DARC?

A proposal is being developed by the UK Ministry of Defence (MOD) regarding the future of Cawdor Barracks as part of the Deep Space Advanced Radar Capability (DARC) programme, a strategic agreement between the United States, Australia and the UK to place an array of advanced ground-based sensors in each country to look into deep space (circa 36,000 km).


The new programme is designed to provide a 24/7, all-weather capability that will leverage the geography of the United States, Australia and the United Kingdom to provide 360° global monitoring to detect, track, identify and characterise objects in deep space.

The UK site is due to be operational by the end of the decade.

Why is DARC required?

Space is crucial for the nation and plays a critical role in our daily lives. Space services, including those delivered by satellites, underpin many aspects of modern life, from enabling navigation, monitoring the climate, forecasting the weather, supporting our emergency services, supporting our Critical National Infrastructure and protecting the public. Global satellite services underpin at least 18% of UK GDP (£370 billion). Understanding what is in space is crucial for the UK's interests, especially as space becomes more congested with satellites and debris in addition to existing hazards such as meteors and space weather.

The proposed redevelopment of Cawdor Barracks for the DARC programme would help to protect our present and future prosperity, national security and way of life. By enhancing our awareness and understanding of what is happening in space, we can continue to ensure it remains safe, sustainable and accessible to all.





Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Hanes Barics Cawdor ac Amddiffyn y Wlad

Mae gan Farics Cawdor hanes hir o gefnogi byddin y DU. Mae'r safle wedi bod yn hen orsaf hedfan yr Awyrlu Brenhinol ac yna'n ganolfan i'r Llynges Frenhinol, o'r enw RAF Breudeth a Gorsaf Awyr y Llynges Frenhinol Breudeth. Fe'i defnyddiwyd rhwng 1944-1992 i redeg nifer o wahanol sgwadronau awyrennau ac uned feteorolegol. Cafodd y safle ei ailgychwyn ym 1995 a'i ailenwi'n Farics Cawdor. Roedd y safle hefyd yn gartref i gyfleuster Llynges yr Unol Daleithiau rhwng 1973 a 1995.

Ar hyn o bryd mae Barics Cawdor yn gartref i Gatrawd Signal 14 (Rhyfela Electronig). Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2016 y byddai'r safle'n cau ac ar hyn o bryd y bwriad yw i hyn ddigwydd yn 2028 man cynharaf. Mae datblygu'r safle ar gyfer DARC yn helpu i gadw'r safle ar agor, gyda phresenoldeb parhaol o hyd at 100 o bersonél i weithredu DARC.

Pam Barics Cawdor?

Mae safle Barics Cawdor wedi'i nodi fel y lleoliad a ffefrir yn y DU oherwydd ei leoliad daearyddol.

Mae Cymru eisoes yn cynnal nifer o gyfleusterau milwrol sydd ar flaen y gad o ran amddiffyn a diogelwch cenedlaethol.

Byddai DARC yn cynnal y traddodiad yn Sir Benfro o gefnogi ein lluoedd arfog a gwarchod y genedl.

The story of Cawdor Barracks and protecting the nation

Cawdor Barracks has a long history of supporting the UK's military. The site has been both a former Royal Air Force flying station and a Royal Navy base, named RAF Brawdy and Royal Naval Air Station Brawdy respectively. It was used between 1944-1992 to operate a number of different aircraft squadrons and a meteorological unit. The site was reactivated in 1995 and renamed Cawdor Barracks. The site was also host to a US Navy facility from 1973 to 1995.


Cawdor Barracks is currently home to 14 Signal Regiment (Electronic Warfare). It was announced in 2016 that the Ministry of Defence would close Cawdor Barracks in 2024, but this has been delayed until at least 2028. The development of the site for DARC would keep the site open with a permanent presence of up to 100 personnel to operate DARC.

Why Cawdor Barracks?

The Cawdor Barracks site has been identified as the preferred location in the UK due to its geographical location.

Wales already hosts a number of military facilities that are at the cutting edge of national defence and security.

DARC would continue Pembrokeshire's tradition of supporting our military and protecting the nation.



Barics Cawdor / Cawdor Barracks



Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

DARC ym Marics Cawdor

Y cynigiad presennol ar gyfer DARC ym Marics Cawdor yw 27 antena radar, a fyddai tua 15 metr mewn diamedr a thua 21 metr o uchder yn gyfan gwbl.

Byddent yn troi ac yn cylchdroi i ganfod, olrhain, nodi a nodweddu gwrthrychau ymhell yn y gofod.

Yn ogystal â'r radar byddai saith strwythur parhaol newydd, yn amrywio o is-orsafoedd i adeiladau gweithredol. Byddai'r rhain yn rhai unllawr, hyd at chwe metr o uchder. O'i gymharu, mae'r ddau adeilad presennol i awyrennau ychydig dros 12 metr o uchder.

Byddai hefyd adeilad cydosod dros dro yn ystod y gwaith adeiladu, a fyddai tua 11.5 metr o uchder ac yn cael ei symud unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.

Ni wnaed unrhyw benderfyniad eto ynghylch defnydd o'r safle ehangach yn y dyfodol, unwaith y bydd uned breswyl y Fyddin wedi'i hadleoli, a byddai'n destun proses gynllunio ar wahân.

DARC yn Sir Benfro

Byddai DARC yn parhau â thraddodiad Sir Benfro o gefnogi ein lluoedd arfog a byddai'n parhau i ddod â swyddi i Sir Benfro ymhell ar ôl i Gatrawd Signal 14 (Rhyfela Electroneg) adael.

Byddai lleoli'r synwryddion DARC ym Marics Cawdor yn cadw'r safle'n weithredol ac yn golygu bod Cymru yn parhau i warchod y genedl.

Gyda DARC, byddai hyd at 100 o staff milwrol a sifil y DU yn gweithio ar y safle yn y tymor hir ac mae'n debygol o gynnwys hyd at 120 o swyddi tymor byr yn ystod y gwaith adeiladu, gyda chyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. Byddai'r gweithwyr tymor hir sy'n gweithio ar y safle a'r swyddi adeiladu tymor byr yn dod â gwariant cysylltiedig i economi Sir Benfro.

DARC at Cawdor Barracks

The current proposal for DARC at Cawdor Barracks is for 27 radar dishes, which would be approximately 15 metres in diameter and approximately 21 metres in overall height.

They would pivot and rotate to detect, track, identify and characterise objects in deep space.

In addition to the radar, there would be seven permanent structures, ranging from sub-stations to operational buildings. These would be single storey, up to six metres in height. For comparison, the two existing aircraft hangar buildings are just over 12 metres in height.

There would also be a temporary assembly building during the course of construction, which would be approximately 11.5 metres high and removed once the build is complete.

The future use of the wider establishment, once the resident Army unit has relocated, has yet to be decided and would be subject to its own separate planning process.

DARC in Pembrokeshire

DARC would continue Pembrokeshire's tradition of supporting our military and would continue to bring jobs to Pembrokeshire well beyond the intended departure of 14 Signal Regiment (Electronic Warfare).

By locating the DARC sensors at Cawdor Barracks, the site would remain operational and continues Wales's support in protecting the nation.

DARC would have up to 100 UK military and civilian personnel on site long-term and is likely to include up to 120 short-term jobs during construction, with opportunity for local employment. The long-term personnel working on site and the short-term construction jobs would bring associated spend to the Pembrokeshire economy.



Enghraifft o radar gofod pell / Example of a deep space radar



Enghreifftiau o antenau tebyg o ran maint / Examples of similar sized antennas



Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Parchu ein cymdogion

Rydym yn ymwybodol o'r effeithiau posibl ar ein cymdogion, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae rhaglen DARC yn parchu treftadaeth leol, cartref Pebidiog, bywyd gwyllt, dyfrffyrdd a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rydyn ni eisiau tarfu cyn lleied â phosibl ar leoliadau cyfagos, bywyd gwyllt a lleoliadau sydd o arwyddocâd amgylcheddol a diwylliannol.

Rydym yn cwblhau cyfres o arolygon ac asesiadau, sy'n rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol fel y cytunwyd gyda Chyngor Sir Penfro a rhanddeiliaid allweddol. Bydd y broses hon yn asesu effeithiau'r prosiect ar yr amgylchedd. Mae'n cwmpasu'r effaith ar fywyd gwyllt, cymunedau/pobl leol, busnesau, yn ogystal â'r dirwedd a'r dreftadaeth ehangach.

Bydd yr wybodaeth a gesglir, yr ymgynghoriad a gynhelir, a'r cyngor arbenigol a geir yn rhoi sail i'r dyluniad – er mwyn osgoi, lleihau neu wrthbwysu'r effeithiau negyddol, a datblygu cyfleoedd i wella'r amgylchedd. Caiff hyn ei nodi yn y Datganiad Amgylcheddol, sy'n cefnogi'r cais cynllunio.

Bydd y penodau yn y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys:

- Trafnidiaeth a mynediad
- Ansawdd aer
- Sŵn a dirgrynu
- Bioamrywiaeth
- Tirwedd ac effeithiau gweledol
- Archaeoleg a threftadaeth adeiledig
- Tir halogedig a chyflwr y tir
- Yr amgylchedd dŵr, risg llifogydd, a draeniad
- Nodweddion economaidd-gymdeithasol
- Newid hinsawdd a charbon
- Gwres ac ymbelydredd
- Goleuadau
- Effeithiau cronrus

Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio

Os ceir caniatâd cynllunio, bydd yn amodol ar bob radar yn bodloni'r holl safonau diogelwch gofynnol. Yn benodol, y safonau amgylcheddol ac iechyd rhyngwladol fel y'u pennir gan y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio (ICNIRP) a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

Mae ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio yn cael ei ddefnyddio mewn eitemau bob dydd fel microdonnau a ffonau symudol. Dim ond y tu allan i ffiniau diogelwch y caniateir mynediad i aelodau o'r cyhoedd. Hyd yn oed ar ymyl y pellteroedd hyn, byddai lefel y signal sy'n dod o drosglwydyddion DARC yn debyg i ddefnyddio ffôn symudol, neu hyd yn oed yn llai na hynny.

Rheoli gwaith adeiladu

Yn yr un modd ag unrhyw brosiect adeiladu, efallai y bydd rhywfaint o darfu ar ddefnyddwyr a chymdogion o ran sŵn, llwch a dirgrynu yn ystod y gwaith adeiladu. Byddem yn cytuno ar gynllun rheoli adeiladu gyda Chyngor Sir Penfro er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl. Byddai'n cynnwys amseroedd gweithio penodol, gydag unrhyw waith sy'n digwydd y tu allan i'r amseroedd hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r gymuned ymlaen llaw. Byddai pob radar yn cael ei gludo mewn cydrannau ac yn cael ei adeiladu ar y safle. Byddem yn gwneud ein gorau i darfu cyn lleied â phosibl ar ffyrdd lleol.



Respecting our neighbours

We are conscious of potential impacts on our neighbours, including the Pembrokeshire Coast National Park.

The DARC programme respects local heritage, Dewisland, wildlife, waterways and the Pembrokeshire Coast National Park. We want to minimise any disruption to nearby locations, wildlife and locations of environmental and cultural significance.

We are completing a suite of surveys and assessments, which form part of an Environmental Impact Assessment (EIA) as agreed with Pembrokeshire County Council and key stakeholders. This process will assess the effects of the project impacting the environment. It covers impacts to wildlife, local people / communities, businesses, as well as the wider landscape and heritage.

The information gathered, consultation undertaken, and expert advice informs the design to avoid, reduce or offset negative impacts and develops opportunities to improve the environment. This will be set out in the Environmental Statement, which supports the planning application.

The chapters in the Environmental Statement will include:

- Transport and access
- Air quality
- Noise and vibration
- Biodiversity
- Landscape and visual impact
- Archaeology and built heritage
- Ground conditions and contaminated land
- Water environment, flood risk and drainage
- Socio-economics
- Climate change and carbon
- Heat and radiation
- Lighting
- Cumulative effects

Non-ionising radiation

If granted, planning permission would be conditional on the radars meeting all required safety standards. In particular, international environmental and health standards as set by the International Commission on Non-Ionising Radiation Protection (ICNIRP) and the World Health Organisation (WHO).

Non-ionising radiation is used in everyday items such as microwaves and mobile phones. Members of the public would only be allowed outside of safety distances. Even on the edge of these distances, the level of signal from the DARC transmitters would be comparable to, or even less than, using a mobile phone.

Construction management

As with any construction project, there may be some disruption to users and neighbours in respect of noise, dust and vibrations during the building works. A construction management plan would be agreed with Pembrokeshire County Council to minimise disruption. It would include set working times, with any works occurring outside of these times clearly communicated to the community in advance. The radars would be transported in parts and constructed on site. Disruption to local roads would be minimised as much as possible.






Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Lleoliadau Golygfannau

Mae'r gyfres nesaf o fyrdau'n dangos y golygfannau o bob un o'r pum lleoliad sydd wedi'u marcio ar y map.

Viewpoint locations

The next series of boards show the viewpoints from each of the five locations marked on the map.



- 1 Trefgarn Owen / Trefgarn Owen
- 2 Penllech / Rickets Head
- 3 Pen-y-cwm / Penycwm
- 4 Ffordd leol i Freudeth / Local road to Brawdy
- 5 Yr A487 yn Fferm Mount / A487 at Mount Farm



Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

1

Trefgarn Owen /
Trefgarn Owen

Cyn / Before



Ffotograff gwaelodlin / Baseline photograph

Ar ôl / After



Ffotogyfosodiad / Photomontage



Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

2

Penllech / Rickets Head

Cyn / Before



Ffotograff gwaelodlin / Baseline photograph

Ar ôl / After



Maint y delweddau - dangosir yr ehangide isod /
Extent of visualisation enlargement shown below

Delwedd yn dangos ardal y safle wedi'i hehangu. Ehangiad 200% /
Visualisation enlargement of site area. 200% enlargement.

Ffotogyfosodiad / Photomontage



Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

3

Pen-y-cwm /
Penycwm

Cyn / Before



Ffotograff gwaelodlin / Baseline photograph

Ar ôl / After



Ffotogyfosodiad / Photomontage




Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

4

**Ffordd leol i Freudeth /
Local road to Brawdy**

Cyn / Before



Ffotograff gwaelodlin / Baseline photograph

Ar ôl / After



Ffotogyfosodiad / Photomontage



Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

5

Yr A487 yn Fferm Mount /
A487 at Mount Farm

Cyn / Before



Ffotograff gwaelodlin / Baseline photograph

Ar ôl / After



Ffotogyfosodiad / Photomontage



Ministry
of Defence

Gynigiad ar gyfer DARC ym Marics Cawdor/ DARC Proposal at Cawdor Barracks

Y camau nesaf ac adborth


Diolch am ymweld â'n harddangosfa i ddarganfod mwy am y cynlluniau ar gyfer Barics Cawdor. Bydd yr holl wybodaeth a ddangoswyd yn y digwyddiad hwn ar gael ar ein gwefan o ddydd Llun 16 Medi 2024 a gallwch hefyd gofrestru i gael diweddariadau e-bost.

Eich adborth


Rydym yn croesawu eich adborth ac eisiau gwybod beth yw eich barn am y cynlluniau. Cymrwch amser i siarad ag aelod o'r tîm a chwblhau holiadur cyn i chi adael. Gallwch hefyd sganio'r cod QR isod i'w gwblhau gan ddefnyddio'ch ffôn clyfar.

Sut i gysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech siarad â'n tîm, mae croeso ichi gysylltu â ni.

 www.gov.uk/guidance/deep-space-advanced-radar-capability-darc

 consultation@cascadecommunications.co.uk

 020 7871 3565

 Sganiwch fi

Next steps and feedback

Thank you for visiting our exhibition to find out more about the plans for Cawdor Barracks. All the information displayed at this event will be available to view on our website from Monday 16th September 2024 and you can also register for email updates.

Your feedback


We welcome your feedback and want to know what you think of the plans. Please take the time to speak with a member of the team and complete a questionnaire before you leave. You can also scan the QR code below to complete it using your smartphone.

How to get in touch

If you have any questions or would like to speak to our team, please get in touch.

 www.gov.uk/guidance/deep-space-advanced-radar-capability-darc

 consultation@cascadecommunications.co.uk

 020 7871 3565

 Scan me

Llinell Amser / Timeline

